# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Beca Brown, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17 Medi 2024 |

1. **Y Penderfyniad a Geisir:**
   Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys cyfarch canlyniadau'r haf, amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Yn y lle cyntaf, hoffwn longyfarch ein dysgwyr a'n hysgolion ar y canlyniadau cadarnhaol yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf yma. Y trefniadau ar gyfer cymwysterau eleni oedd y cam olaf wrth ddychwelyd yn raddol i brosesau arferol, gyda'r asesiadau yn cael eu dyfarnu yn unol â blynyddoedd cyn y pandemig heb unrhyw ystyriaethau ychwanegol. Rwy'n dymuno'n dda iawn i bob person ifanc yng Ngwynedd wrth iddynt gamu ymlaen i'r bennod gyffrous nesaf yn eu bywyd, boed hynny i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant, prentisiaethau neu waith.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Awst 2024, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill eleni. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn arbennig o fodlon gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

### 3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

**Perfformiad Addewidion Cynllun y Cyngor**

**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**

Bydd polisi mynediad ysgolion Gwynedd yn newid o fis Medi 2025 ymlaen ac yn nodi y bydd disgwyl i blant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin yn yr ysgolion yng Ngwynedd fod wedi eu toiledu cyn cychwyn. Mae gwaith wedi cychwyn i baratoi rhieni ar gyfer hyn, gydag adnoddau wedi eu rhannu gyda phob lleoliad gofal plant ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mae cydweithio gyda'r gwasanaeth Llyfrgelloedd a'r Adran Amgylchedd i greu pecynnau toiledu gyda napis eco gyfeillgar.

Mae'r gwaith o ehangu darpariaeth gofal plant 2 oed i ardaloedd newydd bron wedi'i gwblhau, gyda 22 o ddarparwyr bellach yn cynnig gofal plant ymestyn Dechrau'n Deg. Yn dilyn cynnal ymweliadau efo'r darparwyr sydd yn rhan o'r cynllun ymestyn, derbyniwyd adborth positif iawn o ran ansawdd y ddarpariaeth ar hyn o bryd. Gall rhieni ymgeisio am y ddarpariaeth gofal plant drwy Hwb Teuluoedd Gwynedd.

**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**

Braf yw cael datgan fod adeilad a champws newydd ar gyfer Ysgol Treferthyr yng Nghricieth wedi agor ei drysau i ddysgwyr ddechrau mis Medi eleni. Mae hyn yn dilyn blynyddoedd o waith, a buddsoddiad o dros £8m er sicrhau amgylchedd dysgu ac adnoddau o'r radd flaenaf i hyd at 150 o ddysgwyr yr ardal. Yn ogystal, bydd darpariaeth gofal plant ar y safle, ynghyd ag Uned ABC.  Bydd yr Adran yn trefnu agoriad swyddogol yn fuan iawn.

Mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ym Mangor. Mae'r gwaith ar safle Ysgol Glanadda wedi cychwyn yn ystod gwyliau'r haf eleni, ac edrychaf ymlaen i roi diweddariad ar gynnydd y gwaith adeiladu hwn y tro nesaf.

Mae bwriad hefyd i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Hirael, ac yn Nhymor y Gwanwyn eleni, bu i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Fusnes i ryddhau'r arian ar gyfer gwireddu'r ymrwymiad hwn. Rydym yn y broses o benodi ymgynghorwyr ar gyfer arwain y gwaith ar hyn o bryd.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan ym Mangor, ac yn y broses o benodi pensaer ar gyfer y prosiect fydd yn gweithio efo'r Adran ac Ysgol Tryfan er mwyn ceisio cyfarch y weledigaeth ar gyfer y buddsoddiad hwn. Rydym yn anelu i gyflwyno Achos Fusnes i Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2025 er mwyn rhyddhau'r arian i wireddu ein dyheadau ar gyfer sicrhau gwelliannau sylweddol ac amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i'r dysgwyr.

Mae Ysgol y Faenol hefyd wedi cael estyniad sylweddol. Fodd bynnag, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Er hynny, drwy gydweithrediad Cyngor Cymuned Pentir, o fis Medi eleni, rydym wedi llwyddo i sicrhau defnydd dros dro o faes parcio Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd ar gyfnodau brig pan fo plant yn cael eu danfon a'u casglu o'r ysgol bob dydd yn ystod y tymor ysgol er mwyn hwyluso gallu rhieni a theuluoedd i dywys eu plant i Ysgol Y Faenol yn ddyddiol. Rwy'n ymwybodol fod pryderon a rhwystredigaeth yn lleol am y sefyllfa, a hoffwn gadarnhau fod yr Adran a'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i geisio datrys y sefyllfa a chwblhau'r prosiect sydd yn cynnwys canolfan gymunedol newydd.

Yn dilyn sicrhau £4.9m o'r gyllideb sy'n weddill o'r prosiect Cyflwr ac Addasrwydd, rwy'n falch o ddatgan fod y gwaith o wella cyflwr ac addasrwydd hyd at 11 o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Ngwynedd wedi cychwyn yn ystod gwyliau'r haf eleni. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael.

**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**

Mae'r prosiect yma yn un o brif flaenoriaethau i mi fel Aelod Cabinet Addysg ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r holl benaethiaid, staff, dysgwyr a rhieni sydd wedi ymateb i'r holiaduron er mwyn ein cynorthwyo i adnabod yr heriau a'r costau ynghlwm â mynychu'r ysgol. Mae dadansoddiad o'r holiaduron yn adlewyrchu'r heriau dyddiol sydd yn wynebu teuluoedd, gyda chostau gwisg ysgol, teithiau ysgol, a chostau cinio/egwyl (ysgolion uwchradd) wedi eu nodi fel y prif heriau i deuluoedd. Bydd yr ysgolion yn derbyn canfyddiadau'r holiaduron rŵan gyda'r bwriad o sefydlu gweithgor i lywio'r gwaith o gydweithio er mwyn ceisio lleihau'r costau a sefydlu siarter. Byddwn hefyd yn llunio argymhellion i'r ysgolion eu hystyried er mwyn lleihau'r costau ac ysgafnhau'r baich ariannol ar deuluoedd. At hyn, mae pob ysgol wedi derbyn templed o Gynllun Cydraddoldeb iddynt ystyried ac addasu'r amcanion yn unol â'u cyd-destun a'u anghenion lleol. Edrychaf ymlaen i adrodd ymhellach ar gynnydd y prosiect a'r gweithgor i leihau'r gost o fynychu'r ysgol y tro nesaf.

**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cymryd camau i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc Gwynedd yn ganolog i gynllunio a datblygu darpariaethau'r gwasanaeth. Mae fforymau Llais Pobl Ifanc wedi'u sefydlu i gynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol yn y broses o nodi eu hanghenion, codi ymwybyddiaeth o'u hawliau democrataidd, a datblygu llwybrau dysgu, ynghyd â gweithwyr ieuenctid y dyfodol. Yn ogystal, mae bwriad hysbysebu rôl

Cydlynydd Ymgysylltu er mwyn sefydlu a chynnal Fforwm Ieuenctid Gwynedd, gan sicrhau bod mewnbwn pobl ifanc yn rhan annatod o benderfyniadau strategol. Mae'r gwaith mapio o ddarpariaethau ieuenctid y sir yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth megis ym maes addysg, cyflogaeth, iechyd a lles, a hamdden. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgysylltu a'r gwaith mapio, bydd adroddiad yn cael ei lunio i amlygu meysydd llwyddiant a meysydd i'w gwella. Bydd camau gweithredu yn cynnwys datblygu rhaglenni addysgol newydd, ymateb i adborth pobl ifanc, cydweithio â phartneriaid, gwella mynediad at wasanaethau, a darparu hyfforddiant parhaus i staff yn elfennau allweddol a gaiff eu datblygu fydd yn fodd o sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid yn parhau i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn effeithiol.

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Eifionydd a Bangor, ac rwy'n hynod falch o allu datgan bod y gwaith wedi cychwyn ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn dros yr haf.

Yn sgil derbyn cadarnhad o lwyddiant yr Achos Fusnes ar gyfer ail wedd o arian cyfalaf gwerth £1.1m arall er mwyn buddsoddi yn y 3 safle addysg drochi cynradd a gaiff eu lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn ystod Tymor y Gwanwyn eleni, mae'r gwaith ar fin cychwyn i sefydlu darpariaeth addysg drochi ar safle Ysgol Cymerau ym Mhwllheli, gan adleoli'r ddarpariaeth bresennol o Langybi. Yn ystod Tymor yr Hydref, bydd gwaith hefyd yn digwydd i ehangu darpariaeth addysg drochi yn Nolgellau, ynghyd ag adleoli'r ddarpariaeth drochi o fewn safle Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon. Edrychaf ymlaen i adrodd ar gynnydd y buddsoddiad hwn y tro nesaf.

Mae grant refeniw Trochi Hwyr, Llywodraeth Cymru hefyd yn ein galluogi i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi yn ein canolfannau. Bellach mae cynllun trochi Aberwla wedi ei ddatblygu, sy'n gynllun gwahaniaethol sy'n pontio'r cynradd a'r uwchradd. I gyd-fynd â'r cynllun mae'r prosiect arloesol digidol sy'n gosod cynllun Aberwla a'r cymeriadau ar lwyfan VR y byd rhithiol, ac rydym yn ehangu ac yn cyfoethogi'r adnodd trochi hwn ymhellach yn flynyddol drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adnoddau cyfoes hyn sydd wedi eu datblygu drwy weledigaeth yr Adran Addysg yng Ngwynedd a chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru bellach yn cael eu treialu'n draws-sirol.

**Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd**

Rwy'n hynod o falch ein bod wedi gallu penodi Meirion Prys Jones fel ymgynghorydd llawrydd i gydweithio gyda'r Adran i ail-edrych ar y Polisi Iaith Addysg. Mae amserlen ar gyfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod Tymor yr Hydref 2024 wedi ei llunio ac edrychaf ymlaen i glywed sylwadau o'r trafodaethau yma, gyda'r bwriad o gyflwyno'r canfyddiadau gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn fuan yn Nhymor y Gwanwyn 2025.

**Cynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**

Mae'r gwaith o gynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd hefyd, gydag Adran Addysg Prifysgol Bangor wedi ennill y tendr ar gyfer cydweithio gyda'r Adran Addysg i gynnal y gwerthusiad hwn. Unwaith eto, rwy'n edrych ymlaen i dderbyn adroddiad ar ganfyddiadau'r gwerthusiad ac unrhyw argymhellion gwella. Unwaith eto, mae bwriad cyflwyno adroddiad o'r canfyddiadau ynghyd â'r argymhellion gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Nhymor y Gwanwyn 2025.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd i Wynedd. Bu drafft cychwynnol ohono gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023, ynghyd â thrafodaethau yn y Grwpiau Strategol Penaethiaid, a thrafodaethau mwy diweddar gyda phenaethiaid mewn sesiynau anffurfiol. Rwy'n edrych ymlaen i barhau gyda'r ymgysylltu a'r trafodaethau anffurfiol ar gynnwys y Strategaeth, cyn ymgynghori'n gyhoeddus arno a'i gyflwyno gerbron y Cabinet.

**Arlwyo**

Ers 1 Medi 2023, rwy'n hynod o falch fod pob dysgwr cynradd o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yng Ngwynedd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim, a hynny flwyddyn o flaen yr amserlen genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn addysgol 2023-24, ar gyfartaledd, cafodd 4,646 o brydau cinio ysgol am ddim eu darparu ar unrhyw un diwrnod. Rwy'n hynod o falch o'r llwyddiant hwn, ac yn awyddus i'r Adran hyrwyddo'r cynnig ymhellach hefyd ymysg plant a theuluoedd er mwyn annog rhagor o deuluoedd i fanteisio ar y cynnig yn y flwyddyn addysgol 2024-25.

Yn ogystal, dros wyliau'r haf eleni, cynhaliwyd y cynllun Bwyd a Hwyl mewn 4 ysgol gynradd yng Ngwynedd. Rhaglen addysg yn yr ysgol ydyw sy'n darparu addysg am fwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn ystod gwyliau'r haf, a gaiff ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Yr haf hwn, bu i

nifer o blant fanteisio ar y cynllun, gyda hyd at 40 o leoedd ar gael bob dydd i blant yn y 4 ysgol, sef Ysgol Glancegin, Ysgol Hirael, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Penybryn, Tywyn.

**Her Ysgolion Cynaliadwy**

Rwy'n hynod o gyffrous am lwyddiant y cais Her Ysgolion Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru sydd yn golygu y byddwn yn adeiladu ysgol newydd fydd yn gampws cymunedol, amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy gwerth £12m ym Montnewydd, ger Caernarfon. Dros yr haf, bydd trigolion lleol wedi gweld cabanau yn cyrraedd safle'r ysgol, ynghyd â gwaith yn mynd rhagddo ar yr hen ysgol sydd bellach yn ganolfan gymunedol, er mwyn paratoi ar gyfer sefydlu ysgol dro i ddysgwyr Bontnewydd, tra bydd yr ysgol bresennol yn cael ei dymchwel, ac ysgol amgylcheddol, gynaliadwy yn cael ei hadeiladu o'r newydd ar y safle. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ar gynnydd pellach y prosiect hynod gyffrous hwn y tro nesaf.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwsyiad (ADYaCh)**

Rwy'n hynod o falch o ystyried yr heriau y mae cynifer o bobl ifanc yn eu hwynebu y dyddiau hyn, fod y gwasanaeth ADYaCh wedi llwyddo i ostwng y nifer dyddiau y mae'n rhaid aros am wasanaeth cwnsela o 51 diwrnod i 23 diwrnod ers dechrau'r flwyddyn addysgol. At hyn, yn ystod gwyliau'r haf eleni, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i addasu rhai dosbarthiadau yn Ysgol Pendalar er mwyn sicrhau bod capasiti digonol ar gael yn yr ysgol gyfer y dysgwyr rheiny sydd angen mynediad i ysgol arbennig yn Arfon.

Mae'r maes presenoldeb yn parhau i fod yn bryder i ni a'r lefelau heb ddychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y pandemig. Roedd cyfartaledd presenoldeb dros y flwyddyn academaidd diwethaf yn 89.1% ac i fyny o 88% dros yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. (Cyfradd Cymru ar gyfer 2023-24 yw 89% i fyny o 88.5% y llynedd). Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn gynnydd sylweddol ac mae codi'r cyfraddau i lefelau cyn y pandemig yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Dros y misoedd nesaf bydd ymgyrch ar annog newid mewn ymddygiad i bresenoldeb ynghyd â pharhau ar waith targedu.

Maes arall sydd wedi derbyn sylw dros y flwyddyn diwethaf yw cynnydd mewn gwaharddiadau penodol a parhaol o ganlyniad i ymddygiadau heriol o fewn ein hysgolion. Yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2023 comisiynwyd arolwg manwl ar y Gwasanaeth Cynhwysiad a chyflwyno argymhellion ar sut i gryfhau'r ddarpariaeth. Un o'r prif argymhellion oedd yr angen i ddatblygu ar y cyd ag ysgolion strategaeth glir i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ac ymddygiadol, ynghyd â darganfod lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol gan roi ystyriaeth i fabwysiadu statws Uned Gyfeirio Disgyblion oedd hefyd wedi dwyn i'n sylw gan Estyn. Mae'r gwaith yma yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac edrychaf mlaen i adrodd ar y cynnydd tro nesaf.

Cyn cloi, hoffwn gydnabod heriau sylweddol y flwyddyn a aeth heibio yn sgil troseddau Neil Foden, a bod ein meddyliau i gyd wedi bod, ac yn parhau i fod gyda'r dioddefwyr. Mae'r Adran a'r Cyngor wedi bod yn darparu cefnogaeth i staff a dysgwyr Ysgol Friars dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn parhau i wneud hynny. At hyn, mae'r Adran a'r Cyngor wedi ymrwymo i gydweithredu'n llawn gyda'r adolygiad annibynnol yn unol â chanllawiau cenedlaethol Adolygiad Ymarfer Plant, ac yn barod i weithredu ar unrhyw ganfyddiadau neu argymhellion pan fyddent yn hysbys. Rwyf hefyd yn croesawu bwriad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i gynnal Ymchwiliad Craffu i'r maes diogelu a bydd yr Adran unwaith eto'n barod iawn i gydweithredu'n llawn gyda'r ymchwiliad hwn yn ogystal.

**3.3 Sefyllfa Arbedion ac Ariannol**

Mae gan yr Adran ddau gynllun arbedion yn 2024/25 sydd o fewn y maes cynhwysiad cyfwerth â £41,000, sydd â risg o beidio cael eu gwireddu. Mae'r maes yn destun adolygiad strategol ar hyn o bryd, ac felly'n gynamserol i dorri'r adnoddau sydd ar gael ar y pwynt yma, gyda posibilrwydd o fod angen adnoddau ychwanegol. Gan eithrio'r cynlluniau yma, mae cynlluniau arbedion cyfredol gwerth £410,560 ar gyfer 2024/25 wedi eu rhaglennu, ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu neu ar drac i'w cyflawni yn amserol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 adroddwyd ar sefyllfa ariannol niwtral, yn dilyn defnyddio gwerth £361k o gronfeydd adrannol. Drwy wneud defnydd o'r cronfeydd a thanwariant un-tro ar benawdau eraill o fewn yr Adran, bu modd diddymu gorwariant ar gludiant disgyblion cyfwerth â £1.5m, gyda'r pennawd yma yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Derbyniwyd bid ar gyfer 2024/25, gydag elfen barhaol ac elfen dros dro, i alluogi'r Adran i adnabod cyfleon i weithredu arbedion lle'n bosib. Ymhellach, mae'r pennawd yn cael ei fonitro yn fisol i geisio ymateb yn gyflym i unrhyw gynnydd yn y gwariant a ragwelir, nid oes cynnydd o sylwedd hyd yma.

Bydd perfformiad ariannol cynhwysfawr o sefyllfa'r Adran yn cael ei adrodd i gyfarfod o'r Cabinet ar 15 Hydref 2024.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

*"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg."*

**4.2 Swyddog Monitro**

*"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."*